Y chydig yn wir ellir ei wneuthur pan y mae defaid wedi llygru yn drwadol; y mae ein doethineb, gan hynny, yn cael ei gymhwyso yn well wrth *ragflaenu yn hytrach nag wrth wellhau y drwg hwn.*

John Lawrance, wet unsound fallows, the grass of swampy soils, lands that have been flooded will occasion the rot. The corn, (particularly barley) which shoots amongst the stubble after harvest is said to be dangerous. On the authority of another writer, it is said, that the lime stone land of Derbyshire will rot sheep, and that you may make any land have that effect by liming it. If this latter be the case, it is obvious that sheep should not pasture on such soils. Dr. Harrison of Lincolnshire, who has written perhaps better than any other on the subject, after enumerating many alledged causes of this complaint, gives his

Yn ol sylwadau Mr. John Lawrance, y mae braenarau gwlyb pwdr, porfa tir corsog, a thiroedd ag a ddylifiwyd yn achlysuero'r malldod. Fe ddywedir fod y llafur (yn enwedig haidd) ag sydd yn saethu i fynu ymhlith y sofr ar ol y cynhauaf yn beryglus. Ar awdurdod ysgrifennydd arall fe ddywedir fod tir cerrig calch Sir Derby yn pydru'r defaid, ac y gellir gwneud pob tir i fod a'r effaith hyny trwy ei galchu ef. Os ydyw'r diweddaf yn bod, y mae'n amlwg na ddylai defaid bori ar y fath diroedd. Y mae Dr. Harrison o Sir Lincoln, yr hwn sydd wedi ysgrifennu, o bosibl, yn well na neb ar y pwngc, wedi crybwyll llawer o achosion haeriadwy o'r achwyniad hwn,

opinion, supported by some strong facts, viz. that it is occasioned "by poisonous effluvia, which "under certain circumstances are emitted from "marshy soils." After all, it may remain yet to be discovered what are precisely the whole of the causes, since there is so much variety of opinion. All however seem agreed, that feeding long on low and marshy pastures will produce it, *salt marshes in general excepted.* Exhalations or vapors from swampy grounds may contribute largely to the same effect; *and particularly feeding in the autumn altogether on succulent or juicy herbage.*

yn rhoddi ei farn ei hun wedi ei chadarnhau â rhai gwir-ddigwyddiadau cryfion, ei fod yn cael ei achlysuru gan y mân-ronnynau gwenwynllyd pa rai dan ryw amgylchiadau a deflir allan o ddaear forfaog. Gwedi'r cwbl, gall fod etto yn aros i'w gael allan pa beth yn bendant yw'r cwbl o'r achosion, gan fod cymmaint o amrywiaeth barn yn eu cylch. Pa fodd bynnag, fe ymddengys fod pawb yn cyttuno, fod ymborthi yn hir mewn porfeydd isel morfaog yn ei beri, morfaeydd halltion yn gyffredinol yn y gwrthwyneb. Gall tarthiadau oddiwrth diroedd corsawg gyfrannu yn helaeth at yr unrhyw effaith; ac yn neillduol, ymborthi yn yr hydref ar borfa suddlaw neu iraidd yn hollol.

Since then, so much is known ; we have a clue to the means of prevention which ought to be adopted. Wet and marshy lands may be rendered safe by draining. But the sheep should be folded every evening before the dew falls, from such situations as are likely to cause the malady ; and they should be kept in until the dew disappears in the morning. In the mean time they should be fed on good hay, cut straw, or any dry fodder. These observations should be reduced to practise, and strictly attended to during all wet seasons, and especially in the autumn, or the close of the year. We will urge

Gan hyny, gan fod cymmaint yn adnabyddus, y mae gennym hyfforddiad at y moddion o ragflaeniad ag a ddylai gael eu defnyddio. Gall tiroedd gwlyb morfaog gael eu diyspyddu. Ond fe ddylai'r defaid gael eu corlannu bob prydawn cyn y byddo'r gwllith yn disgyn, oddi wrth y fath sefyllfaoedd ag sydd yn debygol o beri'r afiechyd. ac hwy a ddylent gael eu cadw i mewn hydnes y byddo'r gwllith yn myned ymaith yn y boreu. Yn yr amser hyn dylent gael eu porthi à gwair da, gwellt wedi ei dorri, neu ryw ymborth sych. Dylai'r sylwadau hyn gael eu gosod mewn ymarferiad a'u dilyn yn fanol trwy bob tymmorau gwlyb, ac yn enwedig yn yr

the necessity of this practice, by repeating what has been said with all the force of a caution ; *that if by day these useful animals are suffered to feed on damp soils or watery grasses, they should be foddered by night with good dry meat in order to counteract the ill effects that might otherwise arise.* In some situations they can be driven against night to high and dry grounds, never permitting them to remain more than by day in wet bottoms. Having said thus much on the means of prevention, we shall now sketch the *signs of this disorder* when it takes place.

hydref, neu ddiwedd y flwyddyn. Ni a anno-gwn yr angenrheidrwydd o'r ymarferiad hyn, trwy ail-ddywedyd yr hyn a ddywedpwyd gyd a holl rym gocheliad ; sef, *os bydd i'r creaduriad defnyddiol hyn gael eu dioddef i ymborthi ar diroedd gwlyb, neu borfeydd dw'rlllyd yn y dydd, hwy ddy-lent gael eu porthi trwy'r nos â bwyd da sych i'r diben i wrthweithredu yr effeithiau drwg ag a eill heb hyn gyfodi.* Mewn rhai sefyllfaoedd gallant gael eu gyrru erbyn y nos i diroedd uchel a sych, peidio fyth eu gadael i aros mwy nag ar hyd y dydd mewn gwaelodydd gwlyb. Gwedi dywedyd cymmaint a hyn ar foddion rhagflaeniad, ni gawn yn awr nodi *arwyddion yr anhwylddeb* pan y mae yn cymmeryd lle.

The flesh of infected sheep falls away; feels flabby; upon pressure about the hips, a crackling is sometimes perceived; countenance becomes pale; wool separates from the skin; as the complaint goes on, yellow or black spots appear on the skin; the eyes lose their lustre and become white and sickly; breath fetid; scouring often comes on; teeth and horns sometimes get loose; dropsical symptoms now and then occur; debility increases, till death closes the scene. Some sheep will fatten rapidly at the beginning, but beyond a particular point, which cannot be ascertained, a decline

Y mae cnawd defaid llygradwy yn syrthio ymaith; y mae i'w deimlo yn fasw; wrth wasgu o ddeutu gafael y glyn y mae clindarddach weithiau i'w ddirnad; y mae'r wynebpryd yn dod yn laswyn; a'r gwlan yn ymadael a'r croen: fel ag y mae'r achwyniad yn myned ymlaen, y mae *spottiau* melyn neu ddu yn ymddangos ar y croen; y mae'r llygaid yn colli eu llewyrch ac yn dod yn wyn a chlafaid; yr anadl yn ddrewllyd; y mae ysgwrfa yn fynych yn dod ymlaen; y mae'r dannedd a'r cynn weithiau yn myned yn rhydd; y mae arwyddion dyfrllyd 'nawr ac eilwaith yn cymmeryd lle, y mae'r gwendid yn cynnyddu, hyd nes y byddo angeu yn terfynu'r

as rapidly takes place. It is not necessary to enter into a detail of what appears upon dissection, suffice it to say, that flukes or living vermin, resembling flat fish, are found in abundance in the liver, and sometimes in the neighboring parts. Great numbers of sheep are killed annually in a tolerably good state for the shambles, whose livers are yet infested with these vermin.

Treatment. When the disease be suspected, remove the sheep to a sheltered place with plenty of straw; feed them with bran, hay, corn, cut straw, &c. and give them salt in their water, allowing them to go out into the air when they

olygfa. Y mae rhai defaid yn tewhau yn fuan yn y dechreu, ond tu hwnt i amser neillduol ag nas gellir ei benderfynu, y mae darfodedigaeth yr un mor gyflym yn cymmeryd lle. Nid yw yn angenrheidiol gwneud sylw manwl ar yr hyn sydd yn ymddangos wrth ddifynnu; digon yw dywedyd fod pryfed byw, tebyg i lythi (pysgod fflat) i'w cael mewn helaethrwydd yn yr afu ac weithiau yn y rhannau cysylltedig. Y mae rhifedi mawr o ddefaid yn cael eu lladd yn flynyddol mewn cyflwr gweddol dda i'r gigfa, ag sydd a'u hafau ar yr un pryd yn cynnwys y pryfed rhain.

Triniaeth. Pan y drwgdybir yr afiechyd, symmydwch y defaid i le cysgodol gyd a digon

like. If these valuable animals were in general thus served in the autumn and winter, 'tis highly probable we should not hear of such extensive desolation amongst them. *Broom, burnet, elder, ivy and juniper*, are shrubs and plants which are deemed excellent, and on most of which they will feed. Should not then the plantation of them be encouraged?

“It is confidently asserted, (Dr. Harrison observes) that decoctions of bitter herbs with salt, have frequently preserved sheep from the

o wellt; porthwch hwy ac ebran, gwair, llafur, gwellt wedi ei dorri, &c. a rhoddwch iddynt halen yn eu dwfr, a chaniattewch iddynt fyned allan i'r aer pan y chwennychont. Pe byddai'r creaduriaid gwerthfawr hyn yn gyffredinol yn cael eu trin fel yma yn yr hydref a'r gauaf, y mae'n debygol iawn na chelem ddim clywed am y fath helaeth lanustra yn eu plith. Y mae banadl, gwlyddmair, ysgaw, eiddew, a meryw, yn fanwydd a phlanhigion ag a gyfrifir yn rhagorol, ac ar y rhan fwyaf o'r rhain hwy a ymborthant. Oni ddylai ynte y planniad o honynt gael ei gefnogi?

“Y mae yn cael ei haeru yn hy (medd y Dr. Harries) fod trwythiadau o lysieu chwerwon gyd

rot. In Oxfordshire, Dr. Lower has frequently known six or seven spoonsful of strong brine and stale urine, with soot steeped in it, to be given with great success. This is done at spring and fall of the year, when the dew is counted most dangerous. This course of physic is continued eight or ten days, or till the sheep eat their meat heartily; and if they were taken in time, there seldom died any in a whole flock."

Mr. Clater, in his treatise on diseased cattle, informs us, that he had undertook many *even in*

a halen wedi cadw y defaid yn fynych rhag y byaredd. Yn swydd Rhydychen, y mae Dr. Lower wedi gwybod yn fynych fod chwe' neu saith llwyaid o heli cryf a lleisw gyd a huddug wedi ei fwydo ynddo wedi cael ei roddi yn llwyddiannus. Y mae hyn yn cael ei wneuthur ynghyfodiad a syrthiad y flwyddyn pan y mae'r gwllith yn cael ei cyfrif yn fwyaf perygius. Y mae y llwybr hyn o feddyginiaeth yn cael ei barhau dros wyth neu ddeg diwrnod, neu hyd nes byddo y defaid yn ymborthi ar eu hymborth yn galonnog; ac os byddent yn cael eu cymmeryd mewn pryd anfynych y byddai neb yn marw yn yr holl braidd."

Y mae Mr. Clater yn ei draethawd a'r anifeiliaid anhwylyus yn hyspysu i ni ei fod ef wedi

the last stage of this complaint, and frequently succeeded in curing nine out of ten: he then sub-joins the following recipe, and says that farmers will find it of infinite value.

No. 71. Take nitre six ounces, powdered ginger four ounces, colcothar of vitriol in fine powder two ounces, common salt three pounds and a half, boiling water three gallons; mix, and when milk warm, add to each quart of the mixture three ounces of spirits of turpentine, and bottle for use.

Give to each infected sheep, four large spoonsful of this mixture, (shaking well the bottle or

cymmeryd gwellhâd llawer arno hyd yn oed yn-gradd diweddaf yr afiechyd hwn ac wedi llwyddo yn fynych i wella naw allan o ddeg: y mae ef gwedi'n yn chwanegu y cyfarwyddyd canlynol, ac yn dywedyd y bydd i hwsmy'n i'w gael ef o anfeidrol werth.

No. 71. Cymmerwch nitr chwe' wns, sinsir wedi bowdro pedair wns, colcothar o fitriol meron powdr teg dwy wns, halen cyffredin tri phwys a haner, dwfr berwedig tri galon, cymmysgwch a phan y byddo yngwres llaeth, chwanegwch at bob cwart o'r cymmysgiad dair wns o ysprydoedd turpant, a phottelwch er ei ddefnyddio.

Rhoddwch i bob un o'r defaid heintus, bedair llwyaid fawr o'r cymmysgiad hwn (gan ysgwyd y

vessel) every fourth morning, after fasting the night before, for three times. To such as are very weak, the half or three fourths of this quantity may be sufficient, as **Mr. Clater** tells us.

Sheep are afflicted with many other ills ; the principle of which we shall notice in the next section, without engaging to give an account of an endless number of maladies, or names of maladies, to be found in different writers.

bottel neu'r llestr yn dda) bob pedwerydd boreu wedi ymprydio y nos o'r blaen, dros dair gwaith. I'r cyfryw ag a fyddo yn wan iawn, y mae hanner neu dair rhau o bedair o'r mesur hyn yn ddigonol, fel ag y mae **Mr. Clater** yn dywedyd wrthym.

Y mae defaid yn cael eu blino gan lawer o anhwyliadau eraill, y prif o ba rai ni gawn sylwi arnynt yn y rhan nesaf, heb gymmeryd arnom roddi hanes o rifedi diddarfod o anhwyliadau, neu o enwau anhwyliadau ag a geir mewn gwa-hanol ysgrifenwyr.

SECTION XXX.

Sundry Complaints.

Fever. Sheep are liable to it, as are all other animals. When they are so affected, they will often stand still, pant and breathe with difficulty, and sometimes die suddenly. Bleed, and give nitre two drams at a dose, and bran mashes.

Internal Inflammation. The lungs, stomach, liver, or any other organ, is subject to inflammation in sheep, as in horned cattle; and the particular complaint is to be known by corresponding symptoms, which the reader is referred

RHAN XXX.

Amrywiol Anhwyliadau.

Twymyn. Y mae defaid yn agored i hyn fel ag y mae pob anifail arall. Pan y maent yn cael eu blino gan hyn, y maent yn fynych yn sefyll yn llonydd, yn dyheu ac yn anadlu gyd ac auhawsdra, ac weithiau yn marw yn sydn. Goll-yngwch waed, a rhoddwch *nitr* ddau ddram yn y dogn, ac ebran yn wlych mewn dwfr.

Ennynfeydd tufewol. Y mae'r ysgyfaint, y cylla, yr afu, neu ryw beirian arall yn ddarostyngedig i ennynfa mewn defaid fel mewn da corniog; ac y mae'r achwyniad neillduol i'w adnabod oddiwrth arwyddion cyfattedbol; at yr

to. Let him therefore consult those sections that treat on inflammations in cattle ; minutely attend to the symptoms as described, and the remedies proposed. Observing, that when it be thought necessary to administer medicines in such cases, the doses should not exceed one fourth of what are given to horned cattle.

Gid, Staggers, or Watery Head.

Signs. Stupidity, turning round, holding the head aside, &c. Upon opening the skull, a bladder is found, containing living vermin; according

hyn y cyfeirir y darllenydd. Boed iddo gan hynny ystyried y rhannau hynny ag sydd yn trin ar ennyfeydd mewn da ; gan ofalus sylwi ar yr arwyddion fel ag y darlunir hwy, a'r meddyginiaethau ag a gyfarwyddir yno ; a chofier pan y byddir yn ei ystyried yn angenrheidiol i weinyddu meddyginiaethau yn y cyfryw achosion, na ddylai'r ddogrn fod yn fwy na'r bedwerydd ran, o'r hyn a roddir i dda corniog.

Y Ddera, neu'r Pen dw'rlllyd.

Arwyddion. Syfrdandod, troi oddiamgylch, dal y pen ar y naill ochr, &c. Wrth agor y siol, fe geir pledren yn cynnwys ynddi bryfed byw ; yn ol Mescel, y mae taredrynu wedi cael ei

to Mascal, trepaning has been practised, the bladder extracted, and one sheep out of five saved. It has been recommended to blister the head, place a rowel under the chin, and give calomel, say half a dram at a time, every other day, giving four or five doses.

Red Water. This complaint is of a dropsical kind in sheep, and it is said, arises from some internal inflammation, whatever be the exciting cause. It is rapid in its progress, and will often put a period to life in less than twenty four hours. Its approach may be known by the belly becoming enlarged, and water drivelling from the

arferyd, y bledren yn cael ei thynnu allan, ac un ddafad allan o bump yn cael ei hachub. Yr ydys wedi cymmeradwyo chwysiglydd ar y pen, gosod ceingoreth (*ruel*) dan yr ên, a rhoddwch calomel, dywedwn hanner dram ar y tro bob yn ail ddydd, a rhoddi pump neu chwe' o ddogneau.

Dwfr Coch. Y mae'r achwyniad hwn o natur ddwfrglwyfus mewn defaid, ac fe ddywedir ei fod yn cyfodi oddiwrth ryw ennynfa dufewnol beth bynnag a fyddo yr annogawl achos. Y mae yn gyflym yn ei gychwyniad, ac yn fynych fe rydd derfyn ar fywyd mewn llai na phedair awr ar hugain. Gellir gwybod am ei ddyfodfa oddiwrth

mouth. The sick must be folded or housed; then give to each, three or four doses of the following mixture, once every day, or every other day.

No. 72. Take purging salts half a pound, nitre four ounces, dissolve in four pints of boiling water, add to this when cold half a pint of gin. From four to six large spoonful for a dose.

If there be no sign of fever, put four ounces of spirits of turpentine, instead of the gin, which will make it more effectual, and a less dose by one spoonful will be sufficient at a time. This medicine by its action on the kidneys may remove

fod y bol yn dyfod yn fwy, a dwfr yn cael ei glafoerio o'r genau. Rhaid i'r anhwylyus gael eu gosod mewn buarth neu dy; yna rhoddi i bob un o honynt dri neu bedwar dogu or cymmysgiad canlynol unwaith bob dydd, neu bob un ail ddydd.

No. 72. Cymmerwch halen carthiadol hanner pwys, nitr pedair wns, dadleithiwch mewn pedwar pint o ddwfr berweddig, chwanegwch at hyn wedi iddo oeri hanner pint o gin. Y dogu sydd o bedair i chwe' llwyaid fawr.

Os na bydd un arwydd o dwymyn, dodwch bedair wns o ysprydoedd turpant yn lle'r gin, yr hyn a'i gwna yn fwy effeithiol, ac fe fydd dogu

the complaint. To conclude, as feeding on too much moisture may produce this disorder, like it does the rot ; so a strict attention to the same precautions as were before laid down, may contribute much to prevent this, as well as the other.

Scouring. This complaint indicates the necessity of dry food, on which they should be put when it comes on. Should it continue for some days ; give for one dose a tea spoonful or two of rhubarb powder, in a little gruel. Afterwards in a day's time, if needful, as much pow-

llai o un lwyaid yn ddigonol ar y tro. Gall y feddyginiaeth hon trwy ei gweithrediad ar yr arennau symmyd ymaith yr achwyniad. I derfynu yma, megis y mae ymborthi ar ormod gwlybwr yn debyg o beri'r afiechyd hwn, fel ag y mae yn gwneuthur y bydredd, felly fe all yr un sylw manwl i'r un gocheliadau ag a osodwyd i lawr o'r blaen, wasanaethu llawer i rwystro hwn fel y llall.

Ysgwrfa. Y mae'r achwyniad hwn yn dangos yr angenrheidrwydd o ymborth sych, ar ba un y dylent gael eu gosod pan y byddo yn dyfod arnynt. Os erys dros rai diwrnodau rhoddwch yn un ddogn llonaid neu ddwy lonaid llwy dê o

dered chalk in the same vehicle mixed with a little cinnamon; this may be repeated twice a day. In consequence of a looseness, sheep become *tagged*; viz. a rawness is to be seen about their buttocks, from the acrimony of the flux. Clean the parts, wash them with soap and water, and dust the sores with ceruse powder or chalk.

Blindness. Sometimes happens to sheep: it may be caused by intense heat or bad keep, but more frequently from a blight. The inflammation may be removed by bleeding, and by washing the eyes with goulard water; or a

bowdr rhubarb mewn ychydig o gawl dw'r. Gwedi hyn ymhen diwrnod os bydd angen yr un faint o bowdr shalc yn yr un gwlybwr wedi ei gymmysgu ag ychydig o sinnamwn, gellir rhoddi hyn ddwy waith y dydd. Mewn canlyniad i ysgwrfa, y mae defaid yn dyfod yn bwyntlawg hy. Y mae noethder cig i'w weled o ddeutu eu ffolenni, oddiwrth surni y rhediad. Glanhewch y rhannau, golchwch hwy â dw'r a sebon, a llychwynwch y doluriau â phowdr gwyn-blwm puredig, neu sialc.

Dallineb. Y mae hyn y digwydd weithiau i ddefaid: gall gael ei achlysuero gan wres mawr neu gadwraeth ddrwg, ond yn fynychaf gan

little lump sugar with one fourth of the quantity of white vitriol, or sal ammoniac powdered together may be put into the eyes once a day ; but still better, if it be mixed with honey or a little thin conserve of roses, and then apply it with a feather.

Cored or enflamed Udder. The udder of the ewe is liable to be enflamed at the time of yeaning. This, with hard tumours, arises altogether from an obstruction in the milk vessels. The ewe should be housed, her udder seared and made clean, and then bathed frequently with some liquid opodeldoe ; or a mixture with equal

ddeifiad. Gellir symmyd yr ennynfa trwy waedu, a thrwy olchi'r llygaid â dwfr gowlard ; neu fe ellir doddi ychydig o siwgr gwyn gyda chwarter cymmaint o fitriol gwyn, neu halen ammonia wedi eu powdro ynghyd, yn y llygaid unwaith yn y dydd ; ond fe fyddai etto yn well pe cymysgid hyn a mêl neu ychydig o anewyn rhôs tyner, ac yna ei gymhwyso â phlyfen.

Piw Fflammedig. Y mae piw y fammawg yn agored i ennynu yn amser llydnu. Y mae hyn ynghyd a chwyddiadau caled yn cyfodi oddiwrth rwystriadau yn llestri'r llaeth. Dylai'r fammawg gael ei gosod mewn ty, a'i phiw gael ei gneifio a'i wneud yn lân, ac yna ei olchi yn fynych â

parts of linseed-oil, and spirits of turpentine. If a gathering forms, it must be opened and treated accordingly. See section on the milk fever, and on the downfall of cow's udders.

Hoving, Foot Rot. This disease is called by some, foot-halt. Doctor Wilkinson and others, whose opinions merit our attention, consider wet soils to be the cause. To prevent it, examine the feet of sheep pasturing in wet land. Remove such as are suspected to a dry straw yard. Clean between the claws, and rub well in some spirits of turpentine. If the disease be confirmed, brush away all dirt very carefully,

rhyw faint o wlybwr opodeldoc neu gymmysgiad o'r un faint o rannau o olew had llin ac ysprydoedd twrpant. Os bydd casgliad yn ymffurfio, rhaid ei agoryd a'i drin yn gyfattedbol. Gwel y rhannau ar y dwymyn laethog, ac ar syrthiad piwau gwartheg.

Pydredd y droed. Y mae'r afiechyd hwn yn cael ei alw gan rai yn gloffi'r droed. Y mae Doctor Wilkinson ac eraill, opiniynau pa rai sydd yn deilwng o'n sylw, yn ystyried lle oedd gwlyb yn achos o hono. Er ei rwystro, edrychwch draed y defaid ag a fyddo yn pori mewn tir gwlyb. Symmydwch y cyfryw ag a ddrwgdybir i glôs gwelltog sych. Glanhewch rhwng yr

with an old tooth brush; then apply to the affected parts a little oil of vitriol, or butter of antimony, by means of a wood skewer; this may be repeated a few times, once every other day: when thus dressed, use pledgets of linen or tow, secured with bandages, to hinder the dirt from getting into the feet. It may sometimes be needful to pare away with a knife, decayed or proud flesh: such management scarcely ever fails. Lord Somerville in a communication made to Mr. John Lawrance, informs him, that, in part of his pasture which

ewinedd a rhwbiwch i mewn yn dda ryw gym-maint o ysprydoedd turpant. Os bydd yr afiechyd wedi sefydlu, *brwsioch* ymaith bob brynti yn ofalus â hen *frws* dannedd, yna cymhwyswchat yr hannau dolurus ychydigo olew fitriol neu ymenyn antimoni â gwaell bren; gall hyn gael ei wneuthur dros rai gweithiau unwaith bob yn ail ddydd. Gwedi ei drin fel hyn, defnyddiwch *lint* o liain neu garth wedi ei ddiogelu a rhwymynnau i rwystro llaid i ddod at y traed. Gall fod yn angenrheidiol weithiau i dorri ymaith â chyllel y cig marw. Anfynych y mae'r fath driniaeth yn aflwyddiannus. Y mae Arglwydd Somerville, mewn hypsysiad a wnaeth

was peculiarly apt to produce the disease, he has nevertheless "entirely prevented it, by a careful "selection in autumn; by paring the hoofs of "those which began to be affected, and by the "use of styptics not too corrosive."

Scab or Shab. This disorder needs no description. The best remedy for it, is that communicated by Sir Joseph Banks to the society of arts, and is as follows: (washes in general are hurtful to the fleece.)

No. 73. Take quicksilver one pound, venice turpentine half a pound, oil of turpentine half a

i Mr. John Lawrance, yn dyweud wrtho ei fod ef, er fod rhan o'i dir ag oedd yn neillduol dueddol i beri'r afiechyd, etto yn "ei hollol rwystro trwy neillduad gofalus yn yr hydref, trwy dorri ymaith ewinedd y rhai ag oedd wedi dechreu cael eu blino, a thrwy ddefnyddio gwaed-ddiddosolion nid rhai rhy ysol.

Y clafri. Ni raid darlunio'r afiechyd hwn. Y feddyginiaeth oreu atto ydyw'r un a gyflwynwyd gan Syr Joseph Banks i gymdeithias y celfyddydau, ac y mae fel y canlyn: y mae golchiadau yn gyffredinol yn niweidiol i'r gwlan.

No. 73. Cymmerwch arian byw un pwys, turpant fenis hanner pwys, olew turpant kanner pint,

pint, hog's lard four pounds, mix according to art.

This ointment to be made properly, must be done by a person accustomed to it.

To use it, begin at the head between the ears, and separate the wool in a furrow, carrying it on in a straight line along the back to the end of the tail; as the furrow is made, one finger dipped in the ointment, is to be drawn along the bottom of it close to the skin, and on which it will leave a blue stain: from this furrow, draw others like it, down the shoulders and thighs; and if the sheep be much infected, two more may

bloneg mochyn pedwar pwys, cymmysgwrch yn ol y drefn.

Y mae'n rhaid i'r olew hwn a'i wneud yn iawn, gael ei wneuthur gan un arferol o hono.

Er ei ddefnyddio, dehreuwch wrth y pen rhwng y clustiau, ac ysgarwch y gwlan yn rhych, gan ei ddwyn ymlaen mewn llinell union ar hyd y cefn i ddiwedd y gynffon; wrth wneud y rhych, y mae un bys wedi ei drochi yn yr enaint i gael ei dynnu ar hyd ei gwaelod yn agos at y croen, ac ar yr hwn fe âd frychi glas: oddiwrth y rhych hon tynnwch rai eraill yn yr un modd i lawr ar hyd yr ysgwyddau a'r morddwydydd; ac os bydd y defaid wedi cael eu heintio yn fawr, gellir tynnu

be drawn, one on each side, parallel to that on the back ; and also one down or across the other, on each side between the fore and hind legs.

This operation should not be delayed beyond Michaelmas, once doing is sufficient, and if the weather be dry, the sheep may be turned immediately into their pasture, amongst other stock. There are many Farmers in Lincolnshire, who have their flocks dressed in the autumn, to preserve them, and there are persons who engage to dress sheep with this ungent, at *five shillings* per score, insuring their future safety.

dwyr arall, un bob ochr yn gyfattedbol i'r un ar y cefn ; ac hefyd un i lawr yn groes i'r llall ar bob ochr rhwng y gliniau blaen ac ol.

Neddylai hyn gael ei adael heb ei wneuthur tu hwnt i wyl mihangel. Y mae ei wneuthur unwaith yn ddigonol ; ac os bydd y tywydd yn sych gellir troi y defaid yn union i'w porfa ymhlith creaduriaid eraill. Y mae llawer o Hwsyn yn Swydd Lincoln yn mynnu eu defaid wedi eu trin yn yr hydref i'r diben i'w diogelu hwynt ; ac y mae yno bersonau yr cymmeryd arnynt drin y defaid a'r enaint hwn am bum swllt yr ugain, gan sicrhau eu diogelwch rhagllaw.

Maggots, Ticks, &c. annoy sheep at different times. The same means may be employed to destroy both. The above ointment is frequently used in many places for lice or ticks. Some strongly recommend for maggots an application of sublimate water, three parts, spirits of turpentine, one part, mixed: to be dropped on the parts affected.

To drive away the fly, besmear the coats of the sheep with the following liniments:

No. 74. Take aloes powdered one ounce, spirits of turpentine one pint, soft soap three pounds, mixed over a gentle fire.

Cynrhon, Trogeni, &c. Y mae y rhain yn blino defaid ar wahanol amserau. Gellir defnyddio yr un moddion i ddinystrio pob un o honynt. Y mae'r enaint uchod yn cael ei ddefnyddio yn fynych mewn llawer ofannau at y llau a'r trogeni. Y mae rhai yn cymmeradwyo yn fawr at y cynrhon, gymhwysiad o ddwfr *sublimat* tair rhan, ysprydoedd turpant un rhan, a'u cymmysgu, i'w ddiferu ar y rhannau dolurus.

Er gyrru ymaith y culion, ireiddiwch wlan y defaid à'r iraid canlynol.

No. 74. Cymmerwch alws wedi ei bowdro un wns, ysprydoedd turpant un pint, sebon tyner tri phwys, toddwch ar dan araf.

But some advise the sheep to be dusted with a compound powder, made with ceruse, flour of brimstone and arsenic, and afterwards sprinkled with water.

SECTION XXXI.

Diseases of Swine.

Very little can be said concerning them, any more than that they are subject to almost all the disorders incident to other cattle. Many of their complaints, however, may arise from their filthy habits; particularly imposthumes, pox, &c.

Ond y mae rhai yn cynghori llychwino y defaid â phowdr cymmysgedig wedi ei wneuthur o blwm gwyn puredig, fflwr brwmstan, ac arsenic, ac wedi hynny eu taenellu â dwfr.

RHAN XXXI.

Anhwyliadau Moch.

Ychydig iawn ellir ei ddywedyd yn eu cylch, mwy na'u bod yn ddarostyngedig bron i'r holl anhwyliadau ag sydd yn digwydd i anifeiliaid eraill. Pa fodd bynnag, gall llawer o'u hach-

So stubborn and unmanageable is the hog, that if he refuse his food, it is next to an impossibility to drench him. This circumstance is the occasion of much ill success in treating their maladies; and it also discourages that attention, and those efforts, which are rendered to other diseased animals.

Healthy swine look cleanly, and feed abundantly; occasionally lying upon their side in an extended easy posture.

If they are over-gorged, the appetite becomes blunted, respiration or breathing is short and difficult, restlessness may be observed, and if

wyniadau gyfodi oddiwrth eu harferion ffaidd, yn neillduol cornewydydd, y freeh losg, &c.

Mor styfnig ac afreolus yw'r mochyn, fel os bydd iddo wrthod ei fwyd y mae ei *drwnsho* ef yn beth nesaf, at amhosiblwrwydd. Yr amgylchiad hyn yw'r achlysur o lawer o aflwyddiant wrth drin eu clefydau, ac y mae ef hefyd yn anghefnogi y sylw a'r ymdrechadau hynny ag a roddir i anifeiliaid anhwylus eraill.

Y mae moch iachus yn ymddangos yn loyw, yn bwytta yn helaeth; yn achlysurol yn gorwedd ar eu hochr mewn agwedd esmwyth estynadwy.

Os byddant wedi gorllenwi, y mae'r blys yn cael eu bwlu, gall yr anadliad fod yn fyr ac yn

they lie down, it is upon their belly, in a drawn up or contracted position. However, these signs often indicate some worse ailment.

Pigs that are over-fed should have their troughs kept empty, excepting at feeding times. Give also to each, in its mash for one dose, flour of sulphur and cream of tartar of each one ounce. Repeat this once or twice a day for a few times, which will generally prove sufficient.

Wheezing. Heavings, or Inflammation of the Lungs. Swine are frequently liable to such

anhawdd, ac fe ellir sylwi ar anorphwysdra ; ac os byddant yn gorwedd i lawr, y maent yn gwneud hyn ar eu boliau mewn agwedd gyfyngedig neu grebychlyd. Podd bynnag, gall yr arwyddion hyn yn fynych arwyddo gwaeth afiechyd.

Dylai moch ag a fyddo wedi ymborthi yn ormodol gael eu cafnau wedi eu cadw yn wâg oddieithr ar brydiau bwydo. Rhoddwch hefyd i bob un o honynt yn ei fran a dw'r yn un dogn flwr sulfur ac hufen tarter wns o bob un, ac adwnewch hyn unwaith neu ddwywaith y dydd dros rai troion, yr hyn yn gyffædin a bryfa yn ddigonol.

Ceg-wichiad chwyddiadau, neu ennynfa yn yr ysgyfaint ; y mae moch yn fynych yn dueddol

complaints; and sometimes they admit of no cure: if inflammatory symptoms are evident, bleed, and give sulphur, nitre, and antimony, six drams, or one ounce, of each for a dose, in bran mashed; repeat once or twice a day for sometime.

Sore Throat and Catarrh. It may be only necessary in these complaints to give a simple cordial, made up of a pint of strong beer and two large spoonsful of treacle; boil together and give in warm wash. This may be repeated occasionally. Such a cordial may be improved,

i'r fath achwyniadau, ac weithian nid ydynt yn caniattau un gwellhâd. Os bydd arwyddion fflamedig yn anlwg, gollyngwch waed, a rhoddwch sulfur, nitr, ac antimoni chwe' dram neu wns o bob un yn un dogn mewn ymborth ebran, gwnewch hyn unwaith neu ddwy waith y dydd dros rai troion.

Cêg ddolurus a Gormwyth. Nis gall fod dim yn angenrheidiol yn yr achwyniad hwn ond yn unig rhoddi meddyglyn syml wedi ei wneuthur i fynu o bint o ddiod gref a dwy lwyaid fawr o driagl wedi eu berwi ynghyd, a'i roddi mewn golchion twym. Gellir rhoddi hyn dros rai troion yn achlysurol. Gall y fath feddyglyn gael ei wellau

by the addition of good peas ground, or some flour with bran ; and as such it may be very useful under various circumstances of disease. Where cordials are necessary, always afford a warm dry bed : and in every complaint, neglect not to keep them warm. A writer, we have cited more than once, informs us, “ that swine
 “ are subject to *pox or measles, blood striving,*
 “ *staggers, quinsey, indigestion, catarrh, peripneu-*
 “ *mony, and inflammation of the lungs, called*
 “ *Heavings.*” Yet he says very little on treatment or the curative part.

trwy ychwanegiad o bys da wedi eu malurio, neu ychydig o flawd gyd ac ebran ; ac fel y cyfryw fe all fod yn ddefnyddiol iawn dan amrywiol amgylchiadau clefyd. Pryd y mae meddyglynau yn angenrheidiol, yn wastad rhoddwch orweddfa sych gynnes : ac ym ymhob achwyniad na esgeuluswch eu cadw hwynt yn lân. Y mae ysgrifennydd ag ym wedi ei grybwyll mwy nag unwaith yn hyspysu i ni “fod moch yn agored i'r *frech*, neu'r *frech gach*, *tarawiad gwaed*, *penddaredd*, *y fynyglog*, *anhreuliad ymborth*, *gormwyth*, *ennynfa yn y fynwes*, ac yn yr *ysgyfaint* ;” Etto, nid yw yn dywedyd ond ychydig iawn ar y driniaeth, neu y rhan wellhaol.

In staggers, bleeding should always be had recourse to, together with the powders as directed above.

In Quinsy, or Inflammation of the Throat. If there be a gathering externally, open it, and dress the absceso with tar ointment, or a mixture of Friar's balsam and spirits of turpentine.

A Scurvy unclean Skin. This is not only a disease of itself, but it may be the cause of others; the pores being clogged up with filthy impurities, may obstruct the natural perspiration so essential to health in all animals. Wash those that are affected with a strong ley, made

Yn y *Benddaredd* dylid yn wastadol ollwng gwaed, ynghyd a rhoddi y powdrau a gyfarwyddir uchod.

Yn y *Fynyglog neu Ennydfa'r Gêg*, os bydd casgliad oddi allan, agorwch ef, a thriniwch y clwyf âc enaint tar neu â chymmysgiad o bolsom y *Mynach* ac ysprydoedd turpant.

Croen aflan ysgenawg. Y mae hyn nid yn unig yn afiechyd o hono ei hun, ond fe all hefyd fod yn achos o rai eraill: gan fod y chwys naturiol ag sydd mor angenrheidiol at iechyd ymhob anifail. Golchwch y cyfryw ag a fyddo yn cael eu blino â thrwyth cryf o olch-ludw; rhwbiwch

of pot ash, scrub them thoroughly. Afterwards wash with warm water, to cleanse off the ley, and turn them into a clean straw bed, first of all rubbing them dry. If repeated doses of nitre and antimony be given also in this case, much benefit is likely to accrue.

hwynt yn dda; gwedi hyn, golchwch hwynt â dwfr twym i lanhau ymaith y trwyth, a throwch hwynt i orweddfa o wellt glan, ond cyn hynny, rhwbiwch hwynt yn sych. Os rhoddir dognau o nitr ac antimoni dros rai troion hefyd yn yr achos hwn, gall llawer o lês ganlyn.

APPENDIX.

THERE is a particular disorder that had nearly escaped our notice, incident to horned cattle; and pretty much resembling murrain: it is known by various names, many of which may only describe the different stages of it; such as *vomit of blood, blood in the back, blane in the tongue, or overflow of blood, garget, quarter evil, &c. &c.* But the most common term for it is the *Blane*.

Yearlings and two year old cattle are most subject to it, upon being removed from bad

OL-YMADRODD.

Y MAE anhwylded neillduol ag a fu bron diange ein sylw yn perthyn i dda corniog, ac yn debyg iawn i'r chwaren, (mwrren) fe'i hadwaenir wrth amrywiol enwau, llawer o barai sydd yn unig yn darlunio y gwahanol raddau o hono, megis, *chwydiad gwaed, gwaed yn y cefn, blên yn y tafod, neu orllifaint gwaed, y yarget, &c. &c.* Ond yr enw mwyaf cyffredin arno gan y saeson yw'r *blane*.

Da blwydd a dwy flwydd oed sydd fwyaf darostyngedig iddo pan y symmydir hwy o

good keep in the spring of the year : and numbers fall victims to it, very often dying suddenly. In this disease, there is a collection of air between the skin and the flesh ; hence upon pressure, a crackling is to be perceived, sometimes blotches break out on the limbs, or matter forms upon the joints, blisters upon the tongue, &c.

Treatment. First bleed, and afterwards give a purging drink with salts. If there be much heat and fever after the operation of the purge ; give the antimonial powders No. 11, as directed. Tumours or swellings may be rubbed with the

gadwraeth dda yng-wanwyn y flwyddyn ; ac y mae llawer yn syrthio yn ysglyfaeth iddo, ac yn fynych yn marw yn ddisymmwth. Yn yr afiechyd hwn y mae casgliad o wynt rhwng y croen a'r cnawd, ac wrth ei wasgu fe'i ceir yn trystio ; weithiau y mae crug-darddiadau yn torri allan ar yr aelodau, neu fatter yn ffurfio ar y cymmalau, poethellau ar y tafod, &c.

Triniaeth. Yn gyntaf gwaedwch, ac wedi'n rhoddwch ddiiod garthiadol gyda halenni ; os bydd llawer o wres a thwymyn ar ol gweithrediad y carthiad, rhoddwch y powdr antimonial No. 11, megis y cyfarwyddir. Gall y chwyddiadau gael eu rhwbio â'r iraid No. 16, ond os byddant

liniment, No. 16, or if likely to fill with matter, apply linseed poultices. To blisters in the mouth, administer the wash No. 17. But to prevent this malady is the chief point; caution then should be observed, as to young cattle in their change of keep. When first put into rich grass, they should not be permitted to remain too long at a time, but a piece of inferior keep should be reserved as a digesting place. This is most likely to prevent a too rapid increase of blood and other humours.

Gut-tie, or the Twist in Oxen.

Little or nothing has been said of this accident

yn debyg o lanw â chrawn rhoddwch wrthynt y pwltis had-llin. At y chwysigenni yn y genau gweinyddwch y golchiad No. 17 Ond rhagflaenu yr afiechyd hwn yw'r pwngc pennaf; dylid fod yu ochelgar, gan hynny, ynghylch da ieuangc pan y newidir eu cadwraeth. Pan y dodir hwy gyntaf mewn porfa fras, ni ddylent gael eu gadael yn rhy hir ar y tro yno, ond fe ddylai darn o dir gwaelach gael ei gadw fel yn lle treuliad. Y mae hyn yn lled debyg o rwystro cynnydd buan y gwaed a gorllifaint eraill.

Y Cwlwm-perfedd neu'r Nydd-dro mewn Ychen.

Y chydig neu ddim sydd wedi cael ei ddywedyd

(so we may call it) by any of the Writers on the diseases of cattle. The author is therefore indebted to the family of the late Mr Joseph Harris of Wicton in Herefordshire, for the most valuable information on the subject perhaps ever communicated. That gentleman's knowledge of the malady was complete; and such was his expertness, that he was rarely ever foiled in remedying it by the common operation. His own description of it, was originally transmitted in a letter to Mr. Clark of Builth; but the language is too scientific for general usefulness. The author therefore proposes giving the

am y digwyddiad hwn (felly gallwn ei alw ef) gan neb ysgrifenydd ar anhwyliadau anifeiliaid. Y mae'r awdwr gan hynny yn ddyledus i deulu y diweddar Mr. Joseph Harris o Wicton yn Swydd Henffordd am yr hyfforddiad mwyaf gwerthfawr ar yr achos, o bosibl ag a amlygwyd erioed. Yr oedd gwybodaeth y gwr bonheddig hwnnw o'r afiechyd yn gyflawn, a'r fath oedd ei gywreinrwydd fel ag nad oedd ef nemmawr byth yn ffaelw a'i wella trwy y gweithrediad cyffredin. Cafodd ei ddarluniad ef ei hunan o hono yn wreiddiol ei gyflwyno mewn llythyr at un Mr. Clark o Llanfair'muallt, ond y mae'r iaith yn rhy ddysgedig at ddefnyddioldeb cyffredinol. Y mae'r awdwr,

substance of it very faithfully, changing such terms as are technical, for those in more ordinary use. “The symptoms of the gut-tie (he says) are
 “the same as an incurable colic or mortification
 “of the bowels; the beast affected will kick at his
 “belly, lie down and groan, a total stoppage of his
 “bowels, (except blood and slimy matter which
 “pass in large quantities) fever, &c. To distin-
 “guish with certainty the gut-tie from the colic;
 “the hand and arm of the operator must be intro-
 “duced by the fundament, through the straight
 “gut, and passed beyond the share bone; turning
 “the hand down to the part where the vessels of

gan hynny yn amcanu rhoddi y sylwedd o hono,
 yn ffyddlon, gan gyfnewid rhai geiriau celfyddy-
 dawl am rai mwy cyffredin. “ Y mae amlygiadau
 “y cwlwm perfedd (medd ef) yr unrhyw a'r eiddo
 “y colig anwelladwy neu farwhad yn yrymysgar-
 “oedd. Y mae'r anifail cystyddiol yn troedio at ei
 “fol, yn gorwedd i lawr ac yn ochneidio; y mae
 “attaliad hollol o'r ymysgaroedd (oddi eithrgwaed
 “a rhyw fater lleidiog ag a fyddo yn *passio* yn
 “helaeth) twymyn, &c. I wahaniaethu gyda
 “sicrwydd y cwlwm-perfedd oddiwrth y colig, y
 “mae yn rhaid i law a braich y gweithredwr gael
 “eudodi i mewn trwy y cwthr, trwy y perfedd yn
 “uniawn tu hwnt i'r *hare bone* gan droi y llaw i

“the testicles enter the belly; *there* the string
 “will be found joined to the muscles or fleshy
 “parts, and it is easily to be traced to the *stricture*
 “or *tie* by the hand, without pain to the beast.
 “This gut-tie is occasioned by a bad method of
 “castrating or gelding the calves, (practised
 “throughout Herefordshire,) *viz.* They open the
 “purse, take hold of the testicles with their teeth,
 “and tear them out; by which means all the
 “vessels thereto belonging are torn or broken.
 “The seed vessels, in consequence of this rude
 “operation; spring back, and form a kind of bow,
 “in that part of the belly near to the hungry gut,

“lawr tu a'r rhan lle y mae llestri y cerrig yn dod
 “i mewn i'r bol; *yno* y ceir y llinyn mewn cys-
 “yiltiad â'r gwythi neu y rhannau cigog, ac fe'i
 “dilynir yn hawdd, at y *cwlwm* gan y llaw, heb
 “wneuthur poen i'r anifail. Y mae'r cwlwm-
 “perfedd yn cael ei achlysuero gan ddull drwg o
 “yspaddu'r lloi (ag a arferir trwy Swydd Hen-
 “ffordd) h, y, maent yn agor y pwrs, yn cymmeryd
 “gafael yn y cerrig a'u dannedd ac yn eu tynnu
 “ymaith; trwy ba foddion y mae'r holl lestri
 “perthynol iddynt yn cael eu torri neu eu briwio,
 “Y mae'r llestri had, mewn canlyniad i'r weithred
 “drwsgl hon yn tasgu'nol ac yn ffurfio math o fwa
 “yn y rhan hynny o'r bol ag sydd agosaf at y

“where it makes its turnings from the left to the
 “right side, and from right to left, near the kid-
 “nies. When the accident happens, the bow
 “from one or both of these seed vessels or strings,
 “becomes entwined about the bow of the gut,
 “which at this time is filled with air, so as to
 “make a tie like to what a carter makes on his
 “cart line. This causes a stoppage in the bow-
 “els, and brings on a mortification, which in a
 “few days proves fatal.” In describing the
 operation Mr. Harris proceeds, “make a per-
 pendicular incision four inches under the third
 rib of the loins on the left side of the ox, over

“perfeddyn newynog, lle y mae yn gwneuthur ei
 “droadau oddiwrth yr ochr aswy at yr ochr
 “ddehau, ac oddiwrth yr ochr ddehau at yr ochr
 “aswygerllaw yr arennau. Pan y mae'r ddamwain
 “hyn yn digwydd, y mae'r bwa oddiwrth un neu
 “'r ddau o'r llestri had neu'r llinynau hyn, yn troi
 “oddi amgylch i fwa'r perfeddyn, yr hwn sydd
 “bryd hyn wedi ymlanw o wynt, fel ag y mae
 “cwlwm tebyg i'r hyn ag y mae y *carter* yn ei
 “wneuthur ar ei raff *gart* yn cael ei wneuthur.
 “Y mae hyn yn peri attaliad yn yr ymysgaroedd,
 “ac yn dwyn ymlaen farwhad, yr hyn mewn
 “ychydig ddyddiau a bryfa yn farwol”. Wrth
 ddarlunio'r gweithrediad y mae Mr. Harris yn

the paunch ; and introduce the arm to find the tie : if possible, keep the beast standing ;” the knife he recommends to sever the string, “*is in the form of a large fishhook, with an edge on the concave side ; this is fixed to a ring which fits the middle finger, and which is crooked round the back of the knife, the end of the thumb being placed on its edge ;* thus the instrument is secured against wounding the bowels : but great care must be taken not to wound or divide the ureters,* which would be certain death. After the string or strings are divided, the membrane covering the bowels is to be sewed with strong waxed thread, eight

myned ymlaen, “*gwnewch agoriad union-serthi ar ochr aswy yr ych uchlaw y ceudod, a dodwch bedair modfedd dan y drydydd asen o’r lwynau, y fraich i mewn i gael allan y cwltwm ; os bydd bosibl cedwch yr anifail ar ei draed*”. Y mae’r gyllell ag y mae ef yn ei gymmeradwyo i dorri’r llinyn, “*yn yr un ffurf a bach pysgotta mawr, a mîn iddi yn yr ochr geuol ; y mae hon yn cael ei chysylltu wrth fodrwy ag a fyddo yn ffitio’r bys canol, yr hwn sydd yn cael ei gammi oddi amgylch i gefn y gyllell, y mae pen y bys bawd yn cael ei osod ar ei min ; yn y modd hyn y mae’r offeryn yn cael ei sicrhau rhag clwyfo’r*

* Vessels that convey the urine from the kidneys to the bladder.

“or ten double; in like manner the hide; leaving
 “an opening at top and bottom of the wound to
 “introduce a tent of tow spread with digestive,
 “and a little friars balsam; the whole to be
 “covered with white of egg made into a paste
 “with flour. The wound thus dressed daily,
 “will be well in a fortnight.” Mr. Harris then
 used the following purge.

*No. 75. Take glauber salts four ounces, cream
 of tartar four ounces, senna one ounce, one quart of*

“ymysgaroedd; ond y mae'n rhaid cymmeryd
 “gofal mawr rhag clwyf neu ysgaru y dwfr-lestri,
 “yr hyn a fyddai yn angeu sicr. Gwedi i'r llinyn
 “neu'r llinynau gael eu hysgaru, y mae'r teneu-
 “groen ag sydd yncuddio'r ymysgaroeddi gael ei
 “wnio ac edef gref wedi ei chwyro, wyth neu ddeg
 “dyblig; yn yr un modd y gwneir a'r croen, ond
 “gadael agoriad wrth ben uchaf ac isaf y clwyf i
 “ddodi i mewn oreth o gwarch wedi ei ledu a
 “threulbair, ac ychydig o folsom y mynach, a'r
 “cwbl i gael ei guddio â gwyn wy wedi ei gym-
 “mysgu â chàn. Fe fydd y clwyf wrth ei drin
 “fel hyn bob dydd, yn iach ymhen pythefnos.”
 Yr oedd Mr. Harries gwedi'n yn carthu'r corph
 â'r pethau canlynol.

No. 75. Cymmerwch halen glauber pedair wns,

boiling water, half a pint of olive oil, mix according to art, and work it off with gruel; giving afterwards for some days, a large quantity of an infusion of mallows and elder bark.

Mr. Harris's method of castration, infallibly prevents the gut-tie: viz. "open the purse, let
 "out the testicles, and tie the several vessels with
 "waxed thread or silk; or sear with a hot iron
 "to prevent bleeding; this method (the vessels
 "being carefully divided with a knife) can never
 "displace either the vessels of the testicles,
 "bladder, kidneys, or intestines: all of which

*hufen turtar dwy zons, sena un zons, un chwart o
 ddwfr berwedig, hanner pint o olew'r olewydd,
 cymmysgwech yn oly drefn, a gweithiwech ef ymaith â
 chawl dwr; gan roddi ynol llaw dros rai dyddiau
 gryn gymmaint o trwythiad hocys a rhysgl ysgaw.*

Y mae dull Mr. Harries o yspaddu yn an-
 ffaeledig yn rhwystro y cwlwm-perfedd; sef.
 "agorwch y pwrs, gollyngwch allan y cerrig, a
 "chylymmwch y gwahanol lestri ac edef neu
 "sidan wedi ei gwyro; neu seriwch â haiarn
 "poeth i rwystro gwaedu: y mae'r dull hwn (y
 "llestri wedi cael eu gofalus wahanu gan gyllell)
 "yn sicr o gadw rhag myned allan o'u lle lestri
 "y cerrig, y bledren, yr arenau neu'r ymysgar-
 "oedd; y cwbl o ba rai sydd yn cael eu cuddio

“ remain covered by or attached to the leaf or
“ membrane which surrounds the bowels.”
Hence the accident cannot possibly take place.

FINIS.

“ gan, neu ynglyn wrth y ddalen neu'r teneu-
“ groen ag sydd yn amgylchu yr ymysgaroedd.”
O ganlyniad nîr gall y ddamwain fyth gym-
meryd lle,

DIWEDD.



ATTACHED

to be covered by or attached to the feet of
the animals which surrounds the bowls.
Hence the accident cannot possibly take place.

FIXED

to be covered by or attached to the feet of
the animals which surrounds the bowls.
Hence the accident cannot possibly take place.

FIXED

to be covered by or attached to the feet of
the animals which surrounds the bowls.
Hence the accident cannot possibly take place.

